**Adroddiad ar**

**Ysgol Porth y Felin**
**Ffordd Llanrwst**
**Conwy**
**LL32 8FZ**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Porth y Felin yng Nghonwy yng Ngogledd Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn byw yn lleol, a rhai disgyblion yn dod o'r ardal gyfagos. Daw'r disgyblion o amrywiaeth o gefndiroedd, ac mae'r ysgol yn disgrifio'r ardal y mae'n ei gwasanaethu fel ardal nad yw'n freintiedig nac ardal sy'n ddifreintiedig ychwaith.
Ar hyn o bryd, mae gan ryw 18.5% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n debyg i gyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

Mae 286 o ddisgyblion amser llawn a 33 o ddisgyblion rhan-amser ar y gofrestr ar hyn o bryd, wedi'u trefnu yn 13 o ddosbarthiadau. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion i'r meithrin yn dair oed. Caiff y dosbarthiadau eu haddysgu gan 15 o athrawon amser llawn ac un athro rhan-amser a gefnogir gan saith aelod o staff cymorth amser llawn a dau aelod o staff cymorth rhan-amser. Mae gan yr ysgol un disgybl sy'n 'derbyn gofal' gan yr awdurdod lleol. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn cael cymorth ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol. Nodwyd bod gan ryw 20% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, ac mae gan un disgybl ddatganiad o angen addysgol arbennig. Saesneg yw'r brif iaith yng nghartrefi bron pob un o'r disgyblion. Daw pedwar y cant o'r disgyblion o gartrefi Cymraeg eu hiaith.

Penodwyd y pennaeth ym 1998. Ni arolygwyd y dosbarth â darpariaeth adnoddau a ariennir gan yr awdurdod lleol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Porth y Felin yn 2010-2011 yw £3,349, sy'n cymharu ag uchafswm o £9,816 ac isafswm o £2,909 ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghonwy. Yr ysgol sydd â'r 46fed cyllideb uchaf fesul disgybl o'r 61 ysgol gynradd yng Nghonwy.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae'r farn gyffredinol ar gyfer perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol. Mae llawer o ddisgyblion;

- yn gwneud cynnydd da yng nghyfnod allweddol 2;
- yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig erbyn diwedd cyfnod allweddol 2; ac
- yn cyflawni safonau lles da.

Fodd bynnag;

- mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 1 yn gwneud cynnydd annigonol;
- nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion abl wedi'i datblygu digon; ac
- ychydig iawn o'r disgyblion hyn sydd â chyflawniad neu gyrhaeddiad digon da.

### Rhagolygon gwella

Mae'r farn gyffredinol ar gyfer rhagolygon gwella yn ddigonol.

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir ac mae'n amgylchedd dysgu trefnus a hapus. Mae wedi gwneud cynnydd da yn codi safonau mewn Cymraeg, darllen a thechnoleg gwybodaeth. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol;

- yn gwneud digon i herio staff i wella ansawdd eu haddysgu neu godi safonau cyflawniad disgyblion, yn enwedig ar gyfer y rhai mwy abl;
- wedi rhoi systemau hunanarfarnu effeithiol ar waith;
- yn blaenoriaethu gwelliannau yn ddigonol nac yn arfarnu eu heffaith o ran y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion; ac nid yw
- wedi mynd i'r afael â phob un o'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 godi safonau yng nghyfnod allweddol 1 a safonau disgyblion mwy abl;

A2 datblygu strategaethau cynllunio ac addysgu effeithiol fel bod gweithgareddau dysgu yn cynnig her briodol i bob disgybl;

A3 gwella cywirdeb asesu ar ddiwedd cyfnod allweddol 1;

A4 sefydlu system hunanarfarnu drylwyr;

A5 defnyddio canlyniadau o hunanarfarniadau i flaenoriaethu meysydd i'w gwella yn effeithiol; a

A6 sicrhau bod yr ysgol yn bodloni gofynion statudol o ran prosbectws yr ysgol ac 'Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni'.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda lefelau medrau sydd ychydig uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer yr awdurdod lleol ac yn debyg i'r cyfartaledd disgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Yn y dosbarth meithrin, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da, ond ni chaiff hyn ei gynnal yn gyson, ac erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, mae cyrhaeddiad yn gyffredinol islaw cyrhaeddiad yr awdurdod lleol a Chymru. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig, sef lefel 4. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o wersi, nid yw llawer o ddisgyblion mwy abl yn gwneud cynnydd digonol. O ganlyniad, maent yn methu cyflawni'r lefelau uwch yn yr asesiadau ar ddiwedd cyfnodau allweddol, ac mae hyn yn ddiffyg pwysig.

Nid yw disgyblion cyfnod allweddol 1 sy'n cael prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â disgyblion eraill. Yng nghyfnod allweddol 2, nid oes llawer o wahaniaeth mewn cyrhaeddiad rhwng y grwpiau hyn. Yn y mwyafrif o ddosbarthiadau, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn yn enwedig yng nghyfnod allweddol 1. Mae'r gwahaniaeth mewn cyrhaeddiad yn debyg i'r cyfartaledd ar gyfer teulu'r ysgol (yr ysgolion hynny sy'n wynebu heriau tebyg).

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos safonau da iawn o siarad a gwrando, ac mae llawer o ddisgyblion hŷn yn siarad yn glir a hyderus iawn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn darllen gyda rhuglder priodol ond nid ydynt yn hyderus wrth drafod cymeriadau neu eu hoff ran o stori. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn darllen yn dda iawn ac mae llawer o ddisgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn ysgrifennu'n dda ar y cyfan. Mae gwaith bron pob disgybl yn ddarllenadwy ac yn cael ei gyflwyno'n dda. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy abl yn dangos medrau ysgrifennu mwy datblygedig yn gyson.

Mae safonau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn dda iawn ar draws yr ysgol gyfan.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 1, safonau da yn y Gymraeg. Maent yn defnyddio ystod briodol o batrymau iaith, ac yn ymateb yn hyderus. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus ac yn gynyddol y tu allan i wersi Cymraeg. Nid yw disgyblion y mae'r Gymraeg yn famiaith iddynt yn gwneud cynnydd digonol.

Yn 2010, o'i chymharu ag ysgolion sydd â chanran debyg o brydau ysgol am ddim, roedd Ysgol Porth y Felin yn y 25% isaf ar gyfer Saesneg a mathemateg ac yn y 50% isaf ar gyfer gwyddoniaeth. Mae tuedd debyg wedi bod ar gyfer y pedair blynedd diwethaf.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae canlyniadau asesiadau athrawon ar gyfer y lefel 2 ddisgwyliedig yng nghyfnod allweddol 1 islaw canlyniadau teulu'r ysgol ac yn dangos tuedd ar i lawr. Ceir patrwm tebyg ar gyfer y lefel 3 uwch.

Yn 2010, rhoddodd asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 Ysgol Porth y Felin yn y 25% uchaf o ysgolion sydd â chanran debyg o brydau ysgol am ddim. Mae tuedd gref debyg dros y pedair blynedd diwethaf.

Yn y cyfnod hwn, mae canlyniadau asesiadau athrawon ar gyfer y lefel 4 ddisgwyliedig yng nghyfnod allweddol 2 yn gyson uwch na chanlyniadau asesiadau teulu'r ysgol. Mae Ysgol Porth y Felin yn aml yn un o'r ddwy ysgol uchaf eu perfformiad. Mae canlyniadau yn gwella, yn enwedig ar gyfer y dangosydd pwnc craidd.

Fodd bynnag, ar gyfer y lefel 5 uwch, mae'r duedd yn gyffredinol islaw'r teulu ar gyfer Saesneg a mathemateg. Mewn gwyddoniaeth, mae canlyniadau lefel 5 yn gostwng yn gyflym a nhw yw'r gwaethaf yn y teulu ar hyn o bryd.

**Lles: Da**

Mae lles disgyblion yn nodwedd gref yn yr ysgol. Mae pob disgybl yn teimlo'i fod yn cael ei werthfawrogi mewn amgylchedd diogel a gofalgar. Maent yn deall y rhesymau dros fwyta'n iach a phwysigrwydd ymarfer corff. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion yn beicio i'r ysgol gan ddilyn cynllun 'Beicio' ('Bike it') llwyddiannus sy'n cael ei hyrwyddo gan y cyngor ysgol. Mae disgyblion yn gweithio'n galed, yn cyfrannu'n dda mewn gwersi ac yn gwneud eu gorau, er nad ydynt eto yn cyfrannu'n llawn i wella eu dysgu eu hunain. Mae ymddygiad y disgyblion yn dda iawn. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, a dywed y rhan fwyaf ohonynt mai ychydig iawn o fwlio sy'n digwydd. Mae disgyblion yn dangos parch, gofal a phryder am ei gilydd ac yn uniaethu'n dda iawn â'u hathrawon a staff eraill.

Mae'r cyngor ysgol wedi ennill ei blwyf yn dda ac mae gan yr aelodau ddealltwriaeth gref iawn o'u rolau. Maent wedi bod yn llwyddiannus yn hyrwyddo gwelliannau yn yr ysgol a'r gymuned leol.

Mae presenoldeb disgyblion yn gyson yn y 50% isaf o ysgolion tebyg. Mae prydlondeb yn dda.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang a chytbwys o brofiadau dysgu ond nid yw hyn yn bodloni anghenion pob disgybl yn gyson. Ceir profiadau dysgu da ar gyfer disgyblion llai abl. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer y disgyblion mwy abl yn adeiladu'n ddigon da ar eu lefelau dealltwriaeth presennol nac yn rhoi her ddigonol i'w datblygu fel dysgwyr annibynnol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer rhifedd yn gadarn ond nid yw bob amser yn galluogi disgyblion mwy abl i weithio ar lefel uwch yn enwedig mewn gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 2. Mae staff y Cyfnod Sylfaen yn rhoi tasgau lefel isel yn rhy aml i ddisgyblion sy'n gweithio ar eu pen eu hunain.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, a siarad a gwrando wedi'i datblygu'n dda. Mae'r ysgol yn darparu digonedd o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu darllen. Fodd bynnag, ni chaiff disgyblion hŷn ddigon o gyfleoedd ar

gyfer ysgrifennu estynedig.  Mae hyn a'r gorddefnydd o daflenni gwaith yn cyfyngu cynnydd disgyblion.

Ceir digonedd o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan gyda'r gymuned.  Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o weithgareddau chwaraeon, cerddorol a diwylliannol allgyrsiol.  Mae'r rhain yn cefnogi'r cwricwlwm a addysgir yn dda iawn.

Mae'r ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda.  Mae'r rhan fwyaf o oedolion yn siarad Cymraeg â disgyblion yn rheolaidd.  Mae gweithgareddau'r Urdd yn cyfrannu'n dda tuag at ddatblygiad y disgyblion yn yr iaith Gymraeg.  Ceir darpariaeth dda iawn ar gyfer datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth plant am hanes a diwylliant Cymru trwy ymweliadau, arlunwyr a cherddoriaeth Gymraeg, er enghraifft.  Nid yw darpariaeth yr ysgol yn ddigonol ar gyfer disgyblion y mae'r Gymraeg yn famiaith iddynt.

Mae cysylltiadau effeithiol gydag ysgol yn Norwy, gwaith gyda 'Chymorth i Weithredu' ('Action Aid') ac mewn datblygu statws 'Masnach Deg' yn cyfrannu'n dda i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o lawer o agweddau ar gynaliadwyedd ac o faterion lleol a byd-eang fel ei gilydd.

**Addysgu:  Digonol**

Ym mhob gwers a arsylwyd, mae gan staff a disgyblion berthynas waith gref iawn yn seiliedig ar barch ar y ddwy ochr.  Mae hyn yn meithrin amgylchedd dysgu cadarnhaol ac yn cyfrannu'n dda i safonau cyflawniad disgyblion.

Pan fo'r addysgu yn fwyaf effeithiol, mae rhediad da i wersi; mae gan y staff wybodaeth bynciol gyfoes ac maent yn defnyddio ystod effeithiol o strategaethau addysgu.  Gwnânt ddefnydd cryf o ganmoliaeth ac anogaeth ac maent yn rheoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol iawn.  Mae staff cymorth yn cymryd rhan yn weithredol mewn gwersi ac fe wnânt gyfraniadau sylweddol i ansawdd y dysgu a'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion.

Lle ceir diffygion, nid yw athrawon yn cynllunio'n effeithiol i herio disgyblion mwy abl.  Ceir disgwyliadau annigonol o ran yr hyn y gall y disgyblion hyn ei gyflawni, ac fe gaiff hyn effaith negyddol ar y safonau y maent yn eu cyrraedd.

Mae staff yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd, ond nid ydynt yn rhoi adborth digonol i ddisgyblion yn gyson i'w helpu i ddeall sut i wella eu gwaith.  Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n asesu eu gwaith eu hunain neu waith disgyblion eraill yn rheolaidd.

Mae asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn gywir ac yn cael eu safoni'n dda, ond ceir rhywfaint o anghysondeb mewn asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 1.  Mae'r ysgol yn defnyddio ei data ei hun yn dda i adnabod disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt.  Mae defnyddio data i ganfod y camau nesaf ar gyfer dysgu'r disgyblion yn llai datblygedig.

Caiff rhieni/gofalwyr eu hysbysu'n rheolaidd am gyflawniadau, lles a datblygiad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau da ar gyfer cynorthwyo iechyd a lles dysgwyr ac annog eu rhan ym mywyd yr ysgol. Mae ganddi ddarpariaeth effeithiol ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae cysylltiadau cryf gydag eglwys y Santes Fair a'r lefel uchel o ofal a ddarperir gan staff yn cyfrannu'n dda i les disgyblion.

Ceir cydweithio effeithiol ag ystod o asiantaethau, fel nyrs yr ysgol, yr heddlu a gwasanaethau'r awdurdod lleol. Mae hyn yn darparu cymorth da ar gyfer disgyblion a staff. Mae mwyafrif y rhieni a'r gofalwyr yn teimlo eu bod yn gallu mynd at staff am gyngor ac arweiniad pan fydd angen.

Ceir darpariaeth dda ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae staff yn canfod anawsterau dysgu yn gynnar ac yn rhoi cymorth priodol ac amserol i ddisgyblion. Ceir cysylltiadau da gyda chymorth allanol arbenigol. Mae cynlluniau addysgol unigol disgyblion yn briodol ac yn cael eu harfarnu a'u diweddaru'n rheolaidd. Caiff eu rhieni eu hysbysu'n dda a'u cynnwys yn llawn yn y broses.

Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned agos, ofalgar a hapus lle mae pob disgybl yn cael ei werthfawrogi ac amrywiaeth yn cael ei dathlu. Mae trefniadau da ar waith i sicrhau nad yw disgyblion ag anableddau yn cael eu trin yn llai ffafriol.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o adnoddau dysgu o ansawdd da sy'n cael eu gweddu'n dda i anghenion disgyblion. Caiff yr adeilad a'r tir eu cynnal yn dda iawn, gan wneud amgylchedd dysgu ysgogol ar gyfer y disgyblion. Ar draws yr ysgol, ceir llawer o arddangosiadau lliwgar sy'n hyrwyddo ac yn cyfoethogi dysgu'r disgyblion.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr yn rhannu gweledigaeth yr ysgol o gael ysgol drefnus a hapus. Adlewyrchir hyn yn yr ethos cadarnhaol sy'n amlwg ar draws yr ysgol ac yn y safonau uchel o ran ymddygiad y disgyblion.

Mae arweinwyr a rheolwyr yn cyfleu blaenoriaethau ar gyfer gwella yn briodol. Hyd yn hyn, cyfyngedig yw'r defnydd a wnânt o ddata i fonitro perfformiad ac nid ydynt yn herio staff yn gyson i wella ansawdd eu haddysgu neu godi safonau cyflawniad, yn enwedig ar gyfer disgyblion mwy abl. Mae prosesau rheoli perfformiad ar waith, a mwyafrif y targedau wedi'u cysylltu'n glir ag anghenion yr ysgol.

Mae gan lywodraethwyr wybodaeth addas am ddata, ac fe gânt eu hysbysu'n dda ynglŷn â'r modd y mae'r ysgol yn gweithredu o ddydd i ddydd. Hyd yn hyn, nid ydynt yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gosod cyfeiriad strategol yr ysgol nac mewn

herio'r ysgol fel ffrind beirniadol. Mae llywodraethwyr yn methu sicrhau bod dogfennaeth yr ysgol yn bodloni gofynion statudol.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd priodol yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, ond cyfyngedig iawn yw ei hymwybyddiaeth o'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a'i oblygiadau.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r ysgol wedi nodi'r angen i godi safonau yn yr iaith Gymraeg, mewn darllen a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, ac aethpwyd i'r afael â'r rhain yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr a rheolwyr yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn paratoi adroddiad hunanarfarnu'r ysgol cyn yr arolygiad a'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun yn ddogfen ddefnyddiol sy'n nodi camau, costau a'r bobl sy'n gyfrifol am wneud y gwelliannau yn gywir. Fodd bynnag, mae'r cyswllt rhwng hunanarfarnu a'r cynllun gwella ysgol presennol yn gyfyngedig, ac o ganlyniad, anaml y mae blaenoriaethau ar gyfer gwella yn canolbwyntio ar ddeilliannau disgyblion neu ble mae angen newid fwyaf.

Nid yw hunanarfarnu wedi'i seilio'n briodol ar ddefnyddio arsylwadau gwersi, craffu ar waith disgyblion a dadansoddi data. Mae diffyg trylwyredd yn yr elfennau prin sydd ar waith, ac nid ydynt bob amser yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol yn ddigonol, yn enwedig ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mae hyn yn cyfyngu cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion, yn enwedig ar gyfer disgyblion mwy abl.

Nid yw'r ysgol wedi bodloni'r argymhellion o'r adroddiad arolygu blaenorol yn llawn.

Nid yw staff yn cymryd rhan mewn rhwydweithiau o arfer broffesiynol eto, ac mae hyn yn cyfyngu ar allu'r ysgol ar gyfer hunanwella.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae ystod dda o bartneriaethau yn bodoli gyda'r gymuned leol sy'n cefnogi lles a dysgu'r disgyblion yn effeithiol. Mae cysylltiadau cryf gyda'r ysgol feithrin leol yn helpu disgyblion i ymgynefino'n gyflym yn Ysgol Porth y Felin. Mae trefniadau trosglwyddo, y cytunodd y clwstwr o ysgolion a'r ysgol uwchradd arnynt, yn galluogi disgyblion hŷn i gael eu paratoi'n briodol ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae ymweliadau â'r gymuned a chan y gymuned yn cyfrannu'n gadarnhaol i gyfoethogi profiadau disgyblion, gan gynnwys creu grwpiau dysgu teuluol.

Ceir cysylltiadau da gyda sefydliadau hyfforddi athrawon a cholegau addysg bellach lleol, sy'n helpu datblygu staff a disgyblion yn llwyddiannus. Mae llawer o rieni yn sôn yn gadarnhaol am y cyfle i gymryd rhan ym mywyd yr ysgol a'r wybodaeth a gânt.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon a staff cymorth cymwys. Caiff y rhain eu defnyddio'n dda ond nid yw'r hyfforddiant a gânt bob amser wedi'i gysylltu'n glir â blaenoriaethau'r ysgol. Mae uwch arweinwyr a'r corff llywodraethol yn rheoli cyllideb ac adnoddau'r ysgol yn dda ac yn adolygu'r gwariant yn briodol. Mae buddsoddiad yr ysgol mewn adnoddau technoleg gwybodaeth a'r llyfrgell wedi arwain at welliant sylweddol ym mherfformiad disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon a'r cytundeb baich gwaith wedi'u trefnu'n dda. Mae athrawon yn defnyddio'r cyfleoedd hyn yn effeithiol.

Mae diffygion yng nghyrhaeddiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 1, darpariaeth ar gyfer y disgyblion mwy abl, ac mewn arweinyddiaeth a rheolaeth yn golygu bod yr ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiaduron i ddysgwyr**

Llenwodd saith deg tri o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yr holiadur. Ymatebodd bron pob un ohonynt yn gadarnhaol iawn am yr ysgol ac maent yn dweud eu bod yn teimlo’n ddiogel, ac yn cael gofal da. Roedd y disgyblion yn llwyr gytûn eu bod yn gwneud yn dda; bod staff yn helpu iddynt wneud cynnydd; bod rhywun ar gael i ofyn os byddant yn cael trafferth neu fod angen cymorth arnynt; a’u bod yn cael llawer o gyfleoedd i wneud ymarfer corff. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod y gwaith cartref yn gefnogol a bod ganddynt ddigon o adnoddau i wneud eu gwaith.

Nid yw rhai merched yn cytuno bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth ac yn ystod amser egwyl neu fod yr ysgol yn delio’n dda ag unrhyw fwlio.

**Ymatebion i’r holiaduron i rieni**

Ymatebodd chwe deg o rieni i’r holiaduron.

Mae’r rhan fwyaf o rieni o’r farn:

- eu bod yn fodlon â’r ysgol;
- bod eu plentyn yn hoffi’r ysgol;
- bod eu plentyn wedi ymgynefino’n dda yn yr ysgol;
- bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da;
- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda;
- bod yr addysgu’n dda;
- bod staff yn disgwyl i’w plant weithio’n galed;
- bod plant yn ddiogel yn yr ysgol;
- bod yr ysgol yn datblygu synnwyr eu plentyn o gyfrifoldeb yn dda; a
- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Mae llawer o rieni yn credu:

- bod gwaith cartref yn adeiladu’n dda ar waith mewn gwersi;
- bod staff yn trin disgyblion yn deg ac yn eu parchu;
- bod y cymorth ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn briodol;
- eu bod yn gyfforddus yn mynd at yr ysgol i drafod unrhyw broblemau;
- bod eu plant yn cael eu paratoi’n dda ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg; a
- bod yr ysgol yn cynnig ystod dda o deithiau ac ymweliadau.

Roedd lleiafrif o rieni yn pryderu ynghylch;

- y wybodaeth a gânt; a
- gweithdrefnau’r ysgol ar gyfer delio â chwynion.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Richard Hawkley | Arolygydd Cofnodol |
| Lowri Haf Evans | Arolygydd Tîm |
| Kerry Jones | Arolygydd Lleyg |
| Annwen Watkins | Arolygydd Cymheiriaid |
| Dilwyn Grffiths (Pennaeth) | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |